Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys, Clifford Williams – Garndolbenmaen, Gwilym Evans – Prenteg, Huw Pritchard, Delyth Evans – Pentrefelin, Amanda N Owen Megan Ll Williams – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Huws Iddon Edwards – Penmorfa.

Croesawyd Iddon Edwards i'w gyfarfod cyntaf ac arwyddodd Datganiad Derbyn Swydd.

2 Ymddiheuriadau – Richard Williams, Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – Gwilym Evans eitem 6 Materion Priffyrdd, eitem 13 Cais Cynllunio.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 4/7/19. Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a John Jones yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Problemau Parcio Garndolbenmaen - cynhaliwyd cyfarfod safle rhwng Cynghorwyr Garndolbenmaen ac Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd y byddai arwydd yn cael ei osod ar y polyn golau yn gofyn i bobl i beidio parcio ar y palmant. Nid yw hwn wedi cael ei osod. Clerc i gysylltu.

Bryncir - cynhaliwyd cyfarfod safle rhwng Cynghorwyr Bryncir ac aelod o staff yr Asiantaeth Cefnffyrdd i drafod diffygion rheolaeth traffig sy'n bodoli yn y gyffordd wrth Glandwyfach.

Hysbyswyd y Cynghorwyr nad oes ffordd i'w wella yn gyfan gwbl, ond bydd arwyddion mwy eglur yn cael eu gosod yno.

Rheilffordd Eryri – cysylltwyd gydag aelod o staff y rheilffordd ar 4 achlysur, ond nid oes eglurhad wedi cael ei dderbyn. Clerc i gysylltu.

Cynllun Dug Caeredin - derbyniwyd ymddiheuriad gan y sefydliad ynglŷn â'r digwyddiad yng Ngolan. Nodwyd fod sawl grŵp wedi bod yn cerdded yn yr ardal, a heb gael dyddiadau pendant, nid oedd yn bosib iddynt adnabod y grŵp dan sylw. Petai hyn yn digwydd eto, byddai cael dyddiadau yn galluogi'r sefydliad i adnabod y grŵp.

Rhaglen graidd cyswllt ysgolion - derbyniwyd e-byst gan Richard Green, Uwch Arolygydd Gwynedd a Carl Ffoulkes, Prif Gwnstabl. Cadarnhaodd Richard Green y bydd yr heddwas yn dychwelyd i'w ddyletswyddau yn cysylltu gyda'r ysgolion ym mis Medi. Roedd Carl Ffoulkes yn cydnabod effeithlonrwydd y rhaglen ac yn egluro ei fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau rhaglen fwy cynaliadwy at y dyfodol.

Toriadau staffio Prifysgol Cymru Bangor - derbyniwyd ateb gan Yr Athro Carl Hughes, Pennaeth yr Ysgol Addysg yn ymateb i lythyr y Cyngor Cymuned yn datgan pryder am y toriadau i swyddi staff dwyieithog, sy'n dysgu ar gyrsiau hyfforddi athrawon. Cadarnhaodd fod y Brifysgol wedi ymrwymo i ddysgu pob un o gyrsiau AGA CaBan trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Materion Priffyrdd – Lôn Cwmystradllyn i Prenteg. Gwaith cefndirol yn cael ei wneud. Yn dilyn, trafodaeth, penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud cais am gyfarfod rhwng yr Adran Priffyrdd, perchennog y tir a'r Cynghorwyr Cymuned.

Lôn Treflys – gwair wedi ei dorri.

Blwch Halen Allt Tŷ Mawr – y blwch wedi ei dynnu o'r safle.

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan - derbyniwyd manylion cyswllt ar gyfer gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i unigolion/sefydliadau sydd am osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. (https://www.gov.uk/government/collections/government-grants-for-low-emission-vehicles).

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Pris cyflenwi bin - derbyniwyd un pris am gyflenwi bin. Y mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Hydref ar ôl i'r Clerc gael mwy o fanylion.

Angen clirio ysbwriel - Clerc i gysylltu gyda'r contractwyr.

Mynwent Eglwys Cwm Pennant- Angen atgyweirio rhan o'r wal. Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus cyn cyfarfod llawn y Cyngor. Adroddwyd na fydd unrhyw newid i'r rhestr o lwybrau sy'n cael eu torri. Ni dderbyniwyd cwynion am gyflwr y llwybrau.

Llwybr Glanaber i Glangors – llwybr yn cau. Clerc i gysylltu gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin

Perchnogion cŵn yn rhoi baw ci mewn biniau glas ail gylchu. Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd osod biniau baw ci yn Nhynllech, Pontfaen a'r Ganolfan.

Cwmystradllyn

Derbyniwyd gwybodaeth fod BT yn tynnu allan ciosgau yn yr ardal. Mae aelod o'r cyhoedd wedi cynnig i ofalu am y ciosg yng Nghwmystradllyn. Ni chaiff unigolyn fabwysiadu ciosg ac felly, derbyniwyd cais i'r Cyngor Cymuned wneud hyn. Cafodd y mater yma ei drafod tua 2 flynedd yn nôl. Clerc i gadarnhau'r union ddyddiad a chysylltu gyda BT a Chyngor Gwynedd.

Garndolbenmaen

Capel Isaf i'r lôn fawr - tyfiant angen ei dorri. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Gronfa Ddŵr i fyny at Craig y Garn – problem baw ci. Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Prenteg

Angen ail osod arwydd 'Dim Mynediad' ar yr ynys yng nghanol y pentref. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Bryncir

Lôn Bryncir i Llecheiddior Uchaf – pridd yn rhedeg i'r lôn. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Golan

Cyffordd Golan - Cwmystradllyn. Tarmac yn codi ar wyneb y ffordd. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

10 Cyfethol Cynghorwr Ward Garndolbenmaen

Derbyniwyd 2 gais a chynhaliwyd pleidlais. Etholwyd Dylan Pritchard i lenwi'r sedd wag.

11 Gohebiaeth
Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad Cynllun Rheolaeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru (ychwanegwyd manylion digwyddiadau yn y gymuned).
Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Model Rheoliadau Ariannol 2019.
b Unllais Cymru – Dyddiadau Hyfforddiant.
c Mantell Gwynedd – Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Cyfrannu at Brydain Digarbon 13/11/19.
ch Mantell Gwynedd – Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch Sylfaenol 14/11/19.
d Mantell Gwynedd – Cymhorthfa Cyllidol 17/9/19.
Ychwanegwyd
dd Parc Cenedlaethol Eryri – dyddiadau cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned.
e Hyrwyddo Cyrsiau Cymraeg i Oedolion – cytunwyd i osod posteri yn y neuaddau pentrefi os oes cyrsiau yn cael eu cynnal o fewn y dalgylch.

12 Cynllunio

Rhestrau 15/7, 23/7, 26/7, 2/8, 15/8/19. Ychwanegwyd 2/9/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/395C – Diddymu cytundeb Adran 106 yn ei gyfanrwydd. Y Bwthyn, Golan. LL51 9AQ Dyddiad cau 2/7/19. Gwrthwynebu.

NP2/16/454 – Codi sied amaethyddol tir yn Cefn Coch Isaf, Cwmystradllyn. Dyddiad cau 8/8/19. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/LB192 - Addasiadau hwyluso byw. Tŷ Newydd, Cwmystradllyn. LL51 9BQ. Ymestyn y dyddiad cau 1/10/19.

13 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Marie Curie. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Gwirio llyfrau (CW a GEH) 1/4/19 – 30/6/19. Cafwyd yn gywir.

Rhannwyd poster "Rhybudd o Ganlyniad Archwiliad' i'w harddangos ym mhob Ward.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC(nid £59.40 fel a nodwyd yn yr Agenda)	=	£ 61.63
Papur Bro Yr Wylan	=	£ 16.00
Ychwanegwyd:		
Gwasg y Bwthyn	=	£ 9.96
Aled Jones	=	£ 150.00

Derbyniadau: Dim

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,810.02 Cyfredol £15,651.86

14 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cynghorwr Newydd
- Baw Cŵn
- Cyfarfod Asiantaeth Cefnffyrdd

Gwefan – Cofnodion Gorffennaf, Manylion Cynghorwr Iddon Edwards